**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 05-02(p4)**

**Dyddiad:** **6 MAWRTH 2002**
**Amser:** **2.00 - 5.30 pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Pwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **POLISÏAU A RHAGLENNI YNNI DOMESTIG AC EFFEITHLONRWYDD YNNI Y cYNULLIAD**

**Pwrpas**

1. Rhoi syniad cyffredinol i'r Pwyllgor o bolisïau a rhaglenni'r Cynulliad a'r Llywodraeth (i'r graddau y maent yn effeithio ar Gymru) ym maes effeithlonrwydd ynni domestig.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Fel rhan o'r gwaith o ddarparu gwybodaeth ar gyfer adolygiad y Pwyllgor o bolisi ynni, mae'r adroddiad hwn yn nodi polisïau a rhaglenni cyfredol y Cynulliad, y llywodraeth a diwydiant mewn perthynas â'r sector domestig. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi rhai o brif bartneriaid y Cynulliad o ran cyflawni ei amcanion ym meysydd effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd.

**Cefndir**

3. Dyma rai ystadegau sylfaenol sy'n rhoi polisïau cyfredol yn eu cyd-destun:

- Ar hyn o bryd, stoc dai y DU sy'n defnyddio 30% o'r ynni a ddefnyddir a chaiff 80% o hwnnw ei ddefnyddio i wresogi aer a dr. Mae mwy o stoc hn yng Nghymru ac mae felly'n llai effeithlon o ran ynni na'r stoc yn Lloegr, gyda 47% o dai wedi'u hadeiladu cyn 1945 o'i gymharu â 40% yn Lloegr.

- Mae tlodi tanwydd, sef pan nad yw rhywun yn gallu fforddio gwresogi ei d, yn effeithio ar fwy na 222,000 o gartrefi yng Nghymru (17.5% o'r holl stoc, sef 1.27m)

4. Yn sail i bolisïau cyfredol, felly, ceir cyfuniad o bryderon ynghylch newid hinsawdd ac amddifadedd cymdeithasol - yn y ddau achos mae effeithlonrwydd ynni tai yn chwarae rôl allweddol.

5. Er, yn y tymor canolig, ein bod yn canolbwyntio ar y stoc bresennol, mae'r ffaith bod angen edrych ymhellach na hyn, fel y dengys Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ar Lygredd Amgylcheddol (RCEP) ar Ynni ac adolygiad ynni diweddar yr Uned Berfformio ac Arloesi (PIU) - yn golygu bod ychwanegiadau newydd i'r stoc yn chwarae rôl bwysig (gweler y Safonau Tai Cymdeithasol a'r Rheoliadau Adeiladu isod).

**Ystyriaeth**

**Dyma strwythur yr adroddiad hwn:**

- Polisïau newid hinsawdd a'r ffactorau sy'n eu llywio paragraffau 6 i 15
- Polisïau tlodi tanwydd a'r ffactorau sy'n eu llywio paragraffau 16 i 27
- Rhaglenni sy'n cynnal amcanion effeithlonrwydd ynni domestig paragraffau 28 i 42
- Partneriaid y Cynulliad paragraffau 43 i 54

**6. Mae nifer o'r ffactorau sy'n llywio polisïau/targedau ym maes newid yr hinsawdd ddomestig (UE, DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru) naill ai'n bodoli eisoes neu'n cael eu datblygu ar hyn o bryd:**

***The Home Energy Conservation Act 1995* (HECA)**

7. O dan y ddeddf, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu strategaeth gyda'r nod o sicrhau gwelliant o 30% o ran effeithlonrwydd ynni mewn tai (pob deiliadaeth) o fewn cyfnod o 10 mlynedd gan ddechrau ym 1997. Yn ôl y ddeddf hefyd, mae angen i awdurdodau adrodd yn rheolaidd ar hynt y strategaeth honno.

8. Hyd yma, mae perfformiad awdurdodau Cymru (fel yn Lloegr) wedi bod yn wael (gwelliant o 2.5%, yn unig, a welwyd yn ystod y 3 blynedd gyntaf). Mae'n amlwg nad yw rhai awdurdodau lleol yn ystyried effeithlonrwydd ynni na thlodi tanwydd yn flaenoriaeth uchel a phrin iawn yw'r diddordeb corfforaethol a'r adnoddau a ddyrennir.

9. Gan fod yr HECA wedi cael cyn lleied o effaith, aeth Dr Desmond Turner AS ati i gyflwyno Mesur aelodau preifat sef *The Home Energy Conservation Bill* sy'n cael sylw pwyllgor yn y Senedd ar hyn o bryd. Mae'r mesur hwn yn ceisio ymestyn dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr fel eu bod yn gorfod cymryd camau i gyrraedd targedau HECA ac adlewyrchu polisïau'r llywodraeth i gael gwared ar dlodi tanwydd. Mae'r Llywodraeth a Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r mesur.

10. Gan gydnabod bod angen codi proffil arbed ynni ymhlith Awdurdodau Lleol (ymhlith uwch-reolwyr ac aelodau etholedig yn enwedig) cytunodd y Gyfarwyddiaeth Dai, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a CLlLC, yn ddiweddar, y byddai swydd yn cael ei chreu i roi cymorth strategol i Awdurdodau Lleol i ddatblygu polisïau ym maes effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd.

**Cyfarwyddeb arfaethedig y CE ar Berfformiad Ynni Adeiladau**

11. Mae'r Gyfarwyddeb arfaethedig sy'n cael ei thrafod ar hyn o bryd yn Senedd Ewrop a'r Cyngor Ynni cysylltiedig yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni adeiladau ac ar fesurau cysylltiedig a fydd yn helpu i leihau allyriadau Carbon ledled y Gymuned Ewropeaidd.

12. Yn ei Bapur Gwyrdd *Towards a European Strategy for Energy Supply*, pwysleisiodd y Comisiwn Ewropeaidd (CE) fod modd arbed ynni yn y sector adeiladau a nodwyd rhai mesurau a allai gyflawni hyn. Mae ymchwil gan y CE wedi dangos bod modd sicrhau gostyngiad o 22% yn yr allyriadau Carbon sy'n dod o adeiladau drwy wella effeithlonrwydd ynni. Y sectorau adeiladau preswyl a masnachol yw'r rhai sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni yn y pen draw, yn bennaf ar gyfer gwres, golau, peiriannau ac offer.

13. Nodwyd sawl maes allweddol lle mae'r Comisiwn yn bwriadu gweithredu:

- Sefydlu methodoleg gyffredin i fesur perfformiad ynni integredig adeiladau;
- Pennu safonau gofynnol ar gyfer perfformiad ynni adeiladau a safonau gofynnol ar gyfer adnewyddu adeiladau presennol;
- Mater tystysgrifau perfformiad ynni ar gyfer adeiladau cyhoeddus;
- Archwilio boeleri a systemau awyru yn rheolaidd.

14. Yn ogystal â nodi meysydd blaenoriaeth, mae'r cynnig hefyd yn ffafrio nifer o ddulliau strategol a fydd yn helpu i wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau ac anheddau gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer Gwres a Phwer Cyfunol (CHP) a ffynonellau adnewyddadwy.

**Rheoliadau Adeiladu**

15. Mae Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i Gymru a Lloegr (nid yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, felly). Mae'r rheoliadau yn pennu safonau o ran perfformiad effeithlonrwydd ynni ar gyfer y deunydd adeiladu a'r offer a ddefnyddir i wresogi/oeri. Mae newidiadau diweddar a fydd yn berthnasol o 1 Ebrill 2002 wedi'u cyflwyno er mwyn sicrhau gwelliant o tua 25% ym mherfformiad tai newydd (8600 wedi'u cwblhau yng Nghymru 2001) drwy newid y gwerthoedd 'U' ac effeithlonrwydd rheoli boeleri a gwres. Mae'r rheoliadau bellach yn effeithio ar y stoc dai presennol gan fod angen bodloni gofynion pan yn newid ffenestri a boeleri gwres canolog.

(Cynrychiolir buddiannau'r Cynulliad gan swyddogion sy'n aelodau o brif bwyllgor ymgynghorol yr Adran dros Drafinidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DTLR) a grwpiau gwaith pwnc penodol sy'n datblygu newidiadau i elfennau unigol y Rheoliadau).

**16. Dyma'r prif ystyriaethau/polisïau o ran tlodi tanwydd:**

**Y Strategaeth Dai Genedlaethol (Safon Ansawdd Tai Cymru)**

17. Roedd y strategaeth, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn nodi gweledigaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef y bydd holl bobl Cymru yn cael y cyfle i fyw mewn cartrefi o ansawdd da. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen cynnal a gwella safon a chyflwr ffisegol y tai cymdeithasol sydd gennym ar hyn o bryd hyd nes eu bod yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

18. Mae'r Safon wedi'i datblygu er mwyn pennu safon gyffredin i anelu ati o ran cyflwr ffisegol yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda'r nod o gyrraedd y safon honno erbyn 2012. Y nod, yn fras, yw sicrhau bod gan bob cartref ddigon o wres a digon o danwydd a'u bod wedi'u hinswleiddio'n dda. Caiff canllawiau technegol manwl ar y safon a'r broses weithredu eu dosbarthu i bob landlord cymdeithasol cyn hir. Bydd y canllawiau hynny yn pennu targedau o ran lefelau effeithlonrwydd ynni er mwyn sicrhau bodd modd i deuluoedd ar gyflogau isel fforddio digon o wres.

**Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU**

19. Mae Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2001 yn gynnyrch y Grwp Gweinidogol ar Dlodi Tanwydd, gan gynnwys Gweinidogion o'r Adran Diwydiant a Masnach (DTI); y DTLR; Swyddfa'r Cabinet; yr Adran Iechyd, yr Adran Nawdd Cymdeithasol; Trysorlys Ei Mawrhydi; y gweinyddiaethau datganoledig a'r Rheoleiddiwr Ynni. Nod y Grwp oedd cymryd golwg gyffredinol, strategol i sicrhau bod polisïau a mentrau newydd a all effeithio ar dlodi tanwydd yn cael eu cydlynu ar draws y Llywodraeth a'u hintegreiddio â gweithgareddau cyrff allanol perthnasol gan gynnwys rheoleiddiwr y diwydiannau ynni.

20. Yn ôl y Strategaeth, mae gofyn i'r Llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig ddatblygu polisïau gyda'r targed cyffredinol o achub cartrefi rhag tlodi tanwydd erbyn 2010. Mae'r Strategaeth yn pennu targedau interim, y polisïau i gyflawni'r targedau hynny, a mesurau i fonitro cynnydd. Mae'r Cynulliad wedi chwarae rhan amlwg yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth ers ei dyfodiad. Mae Pennod y Strategaeth ar Gymru yn nodi'r polisïau a'r rhaglenni cyfredol gyda'i gilydd ond nid yw'n strategaeth gynhwysfawr ar gyfer Cymru. Bydd y strategaeth honno'n datblygu ar ôl i'r Ddeddf Cartrefi Cynnes gychwyn (gweler isod).

21. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth y DU, bu swyddogion y Cynulliad yn cymryd rhan mewn gweithgor a oedd yn ystyried cyfleoedd i ymestyn y rhwydwaith nwy, gan fod diffyg nwy yn un o'r ffactorau sy'n rhwystro 22% o gartrefi Cymru rhag cael tanwydd fforddiadwy. Mae gwaith yn mynd rhagddo ond gellir dod o hyd i adroddiad y grwp hwnnw a'i argymhellion i'r llywodraeth ar wefan y DTI o dan y pwnc Ynni.

**Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000**

22. Mae'r Ddeddf hon, y disgwylir iddi gychwyn yng Nghymru ar 1 Ebrill 2002, yn rhoi'r cyfrifoldeb i'r Cynulliad, o fewn 12 mis ar ôl ei chwyn, o lunio strategaeth i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Mae gofyn i'r strategaeth honno ddiffinio maint y broblem a nodi pecyn cynhwysfawr o fesurau i sicrhau bod ynni yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon. Rhaid iddi bennu amcanion dros dro a dyddiad targed ar gyfer cyflawni'r amcan, sef sicrhau, cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol, nad yw pobl yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae'r Ddeddf yn cynnig dyddiad 15 mlynedd ar ôl cychwyn ar gyfer cyflawni'i hamcanion.

**Safonau Tai Cymdeithasol ac Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru**

23. Mae safonau tai cymdeithasol, ar ffurf Gofynion Ansawdd Datblygu, wedi bod yn datblygu ers i Tai Cymru gael y cyfrifoldeb am reoli gwariant Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) a ariennir gan grant.

24. Lluniwyd y safonau sy'n berthnasol i dai newydd a thai adferedig i ddiogelu'r arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru ac i ddiogelu buddiannau eu tenantiaid.

25. Mae Safonau Datblygu bob amser wedi rhoi pwyslais ar ddarparu cartrefi cyfforddus i denantiaid am gost y gallant ei fforddio. Sicrhawyd bod y safonau ar gyfer anheddau newydd yn gyson well na'r Rheoliadau Adeiladu cyffredinol (rhan L) drwy bennu cyfraddau SAP a gwerthoedd U gofynnol er mwyn cydnabod pa mor brin yw adnoddau'r grwp cleient.

26. Mae safonau effeithlonrwydd ynni hefyd yn berthnasol i anheddau presennol ac anheddau adferedig a phennir cyfraddau SAP gofynnol ar gyfer cynlluniau lle'r ymgymerir â gwelliannau mawr. Gofynnir i RSLs gymryd pob cyfle cost-effeithiol i wella perfformiad thermol ac awyru'r annedd i sicrhau bod cartrefi yn cael eu cynhesu hyd at lefel gyfforddus am gost fforddiadwy.

27. Yn sgil cyflwyno safonau uwch drwy'r Rheoliadau Adeiladu, mae'r Gyfarwyddiaeth Dai yn ystyried datblygu safonau ymhellach ac yn gwahodd RSLs i gyflwyno ceisiadau am gyllid o dan y Rhaglen Arloesi Tai Cymdeithasol (SHIP) - gweler isod.

**28. Dyma grynodeb o'r prif raglenni y mae'r Cynulliad yn gobeithio'u defnyddio i gyflawni'i amcanion ym maes effeithlonrwydd ynni domestig:**

**Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES)**

29. Gyda chyllideb o £9m yn 2002/02 a fydd yn codi i £12.9 yn 2003/04 mae'r cynllun yn cynnig amrediad o fesurau inswleiddio a gwresogi i gartrefi sy'n derbyn budd-daliadau pasbort.

Mae 30% o arian ar gael i'r sector tai cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae modd cymharu'r cynllun â rhaglenni yng ngwledydd eraill y DU er ei fod yn dal i ddatblygu yn ôl anghenion a blaenoriaethau Cymru. Yn y Cynllun i Gymru ceir targed o helpu 38,000 o gartrefi erbyn 2004.

30. Mae mesurau cyfredol yn rhoi'r cymorth gorau i dai ar y rhwydwaith nwy. Os y'u defnyddir yn iawn a chyda mesurau inswleiddio priodol, gall stôr-dwymwyr trydan fod yn ffordd effeithiol ac effeithlon o wresogi. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli nad y rhain yw dewis mwyaf poblogaidd y rhan fwyaf o bobl, bob amser. Er mwyn sicrhau bod y mesurau mwyaf priodol o dan y cynllun yn cael eu cynnig ledled Cymru, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi comisiynu ymchwil i weld pa ffynonellau gwres eraill (LPG, trydan, olew a ffynonellau adnewyddadwy sy'n dod i'r amlwg) y gellid eu defnyddio yn lle nwy naturiol yn y Gymru wledig.

31. Bydd yr astudiaeth yn rhoi sylw i gostau, gwaith gosod, tanwydd a chostau cynnal a chadw parhaus, pa mor hawdd ydynt i'w rhedeg ac ystyriaethau amgylcheddol. Bydd canlyniadau'r ymchwil a ddisgwylir yn gynnar ym Mawrth 2002 yn cynnwys argymhellion ar y ffynhonnell wresogi fwyaf addawol ac opsiynau inswleiddio a allai fod yn destun peilota ymarferol.

32. Mae HEES, ar y cyd â'r cludwr nwy TRANSCO, ELWa a GWINTO - NTO y diwydiant nwy - wedi bod yn datblygu cynllun hyfforddi ar gyfer ffitwyr nwy i fynd i'r afael â diffygion yn y diwydiant ac i roi cyfleoedd gwaith gan gynnwys ailhyfforddi gweithwyr Corus.

## Yr ymrwymiad i Effeithlonrwydd Ynni 2002 i 2005

33. O dan yr *Utilities Act 2000*, mae'r Llywodraeth wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am bennu'r Ymrwymiad i Effeithlonrwydd Ynni (y Safonau Perfformiad Effeithlonrwydd Ynni gynt). Mae'n ddyletswydd ar gyflenwyr ynni i ariannu mesurau effeithlonrwydd ynni domestig y bwriedir iddynt roi cymorth yn arbennig i bensiynwyr a defnyddwyr ar gyflogau isel.

34. Bydd cynllun 2002/05 yn:

- Sicrhau bod Cymru yn cael cyfran deg o'r budd-daliadau sydd ar gael yn unol â nifer y cwsmeriaid yng Nghymru;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r cyfleustodau gyflawni o leiaf 50 y cant o'i dyletswydd drwy sicrhau arbedion i ddefnyddwyr sy'n perthyn i grwpiau blaenoriaeth, y dylid eu diffinio fel pensiynwyr a chartrefi eraill sy'n derbyn budd-daliadau iechyd ac budd-daliadau incwm eraill;
- Sicrhau arbedion blynyddol parhaus o tua £16.50 y flwyddyn i gartrefi blaenoriaeth; a £7.50 y flwyddyn, ar gyfartaledd, i ddefnyddwyr eraill (£10 y flwyddyn gan gymryd yr holl gartrefi gyda'i gilydd).

35. Ymhlith y mesurau effeithlonrwydd ynni a gynigir, mae'n debyg y bydd inswleiddio'r llofft, inswleiddio waliau dwbl, inswleiddio tanciau, oergelloedd a pheiriannau eraill sy'n effeithlon o ran ynni a boeleri gwres canolog.

36. Er y pennir targedau cwmnïau unigol o dan yr EEC yn ôl yr ynni a arbedir, mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd modd cyflawni'r rhain am gost o ddim mwy na £3.60 fesul cwsmer, fesul tanwydd, fesul blwyddyn. Yn seiliedig ar y gost ddangosol hon, gallai Cymru ddisgwyl buddsoddiad o tua £7.5m y flwyddyn, ar y mwyaf, gyda 50% o'r arian hwnnw'n cael ei roi i'r rheini sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

37. Ar sail ymrwymiad Cytundeb Partneriaeth y Cynulliad i integreiddio HEES â ffynonellau ariannu eraill, mae swyddogion, ar y cyd â DEFRA a'r diwydiant, wedi ceisio sicrhau bod Cymru'n derbyn ei chyfran haeddiannol mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr o safbwynt ein gweithgareddau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

**Rhaglenni Treialon Maes ffynonellau adnewyddadwy'r DTI**

38. Mae tri chynllun tai cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am gymorth gan y Llywodraeth i dalu'r gost o osod Photo Voltaics. Disgwylir rhagor o raglenni ar gyfer treialon maes PV ar raddfa eang a rhaglen arddangos To Heulol.

**Treialon CHP Micro**

39. Ar y cyd â DEFRA, mae'r Gyfarwyddiaeth yn gobeithio cymryd rhan yn y gwaith mawr (6000 o osodiadau ledled Cymru a Lloegr) o dreialu gosodiadau domestig bach (1-3kw). Gallai'r dechnoleg fod yn ddefnyddiol i'r cartrefi hynny sy'n gallu defnyddio'r prif gyflenwad nwy ond sy'n anodd i'w hinswleiddio am fod ganddynt waliau solet.

**Rhaglen Ynni Cymunedol DEFRA**

40. Mae £50 miliwn ar gael fel rhan o raglen Ynni Cymunedol y Llywodraeth fel gwariant cyfalaf dros y ddwy flynedd nesaf ar gyfer Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Ysbytai, Prifysgolion a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill. Caiff ei rheoli gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ac mae'n berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r rhaglen yn cefnogi'r gwaith o adnewyddu cynlluniau gwresogi cymunedol presennol, a gosod rhai newydd. Disgwylir i'r ceisiadau cyntaf ar gyfer cynlluniau braenaru gael eu cyflwyno erbyn 8 Mawrth. Caiff cylchoedd ceisiadau eraill eu cynnal yn 2002-03 gyda'r terfynau amser, yn ôl pob tebyg, ddiwedd Mehefin a Hydref.

**Rhaglen Arloesi Tai Cymdeithasol RSL (SHIP)**

41. Mae'r rhaglen hon, gyda chyllideb o £2m ar gyfer 2000/04 yn cefnogi ymgyrch y Cynulliad Cenedlaethol i wella ansawdd tai a hybu datblygu cynaliadwy drwy ymgorffori gwelliannau amgylcheddol ac effeithlonrwydd ynni mewn cynlluniau tai a ariennir gan y Grant Tai Cymdeithasol. Bwriedir i'r rhaglen lywio'r gwaith o ddatblygu safonau newydd a chymell y gwaith o ddatblygu arferion gorau a gweithredu Ailfeddwl Adeiladu. Bydd y ceisiadau cyntaf yn dod i law erbyn 31 Mawrth 2002.

**Rhaglen Cynhesrwydd Fforddiadwy Transco**

42. Mae Cynhesrwydd Fforddiadwy (*Affordable Warmth*) yn bartneriaeth rhwng Transco, awdurdodau lleol, darparwyr cyllid ac elusennau ynni. Mae'n rhoi'r cyfle i ALl ac eraill sy'n darparu tai yn y sector cyhoeddus i osod ar brydles systemau gwres canolog ar gyfraddau isel. Fel rhan o'r fenter, mae Transco hefyd yn darparu hyd at £10m i hyfforddi ffitwyr nwy. O dan y trefniadau prydlesu mae Transco yn yswirio'r taliadau sy'n weddill ac felly'n lleihau'r risg i'r benthycwr a phremiymau'r ALl. Mae Transco yn yswirio'r trefniadau prydlesu ar gyfer y gosodiadau gwres canolog o dan HEES Newydd.

**Partneriaid y mae'r Cynulliad yn gweithio gyda hwy er mwyn cyflawni'i amcanion ym maes effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd:**

**Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni**

43. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni gyfrifoldeb o fewn y DU i geisio lleihau'r nwyon ty gwydr o'r sector domestig a'r sector busnesau bach. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cefnogi EST-Cymru ers Tachwedd 1999 drwy ddarparu adeiladau a chymorth atodol. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o'r bobl allweddol sy'n cymryd penderfyniadau yng Nghymru ar amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys cyflenwyr nwy, addysg, trafnidiaeth, iechyd a'r sector domestig.

44. Mewn partneriaeth ag EST, mae'r Cynulliad wedi datblygu rhaglenni penodol yng Nghymru gan gynnwys Trafnidiaeth - darparu 2 orsaf LPG yng Ngwynedd, cymorth i'r 4 Canolfan Cynghori Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru, cymorth ariannol i 160 o ysgolion yng Nghymru o dan y rhaglen *Schoolenergy* a phartneriaethau o dan yr ymgyrch Cadwch yn Iach y Gaeaf Hwn.

45. Cefnogir swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol gan yr EST mewn perthynas â'r *Home Energy Conservation Act* trwy ddarparu cymorth a chyngor mewn ffyrdd sy'n cyflawni'u hamcanion o dan y Ddeddf. Fel y nodir uchod o dan HECA, mae EST, mewn partneriaeth â'r Cynulliad, yn sefydlu swydd gyda CLlLC a fydd yn helpu i integreiddio effeithlonrwydd ynni â'r strwythur llunio polisi llywodraeth leol yng Nghymru.

46. Mae rhaglenni EST yng Nghymu wedi helpu i ddatblygu Partneriaeth Ynni De Cymru wedi'u hanelu at ddarparu prisiau tanwydd blaenoriaethol a gwelliannau effeithlonrwydd ynni i denantiaid tai cymdeithasol. Yn ddiweddar, darparwyd cyllid dichonolrwydd i'r Groundwork Trust, Pen-y-bont ar Ogwr, i weld pa mor bosibl fyddai sefydlu rhaglen poethi dr heulol wedi'i hanelu at y sector tai cymdeithasol.

## National Energy Action (NEA) Cymru

47. Yr NEA yw'r elusen genedlaethol sy'n datblygu polisïau a rhaglenni ymarferol i wella safonau gwresogi ac inswleiddio, sef y prif resymau dros dlodi tanwydd. Ers ei sefydlu ym 1981, mae NEA wedi chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu rhaglenni effeithlonrwydd ynni sydd wedi rhoi cymorth i fwy na 3½ miliwn o anheddau ledled y DU, drwy helpu i leihau biliau tanwydd a/neu roi mwy o gysur i'r rheini sy'n cael yr anhawster mwyaf i wresogi eu cartrefi hyd at y safon ofynnol ar gyfer iechyd a chysur.

48. Yn 2000, gyda chymorth y Cynulliad, sefydlwyd NEA Cymru er mwyn cydnabod datganoli a'r angen i adlewyrchu problemau a blaenoriaethau Cymru. Cymeradwyodd y Cynulliad £135,000 o gyllid ar gyfer NEA Cymru yn 2000/02.

49. Amcanion y corff yw buddsoddi mwy mewn effeithlonrwydd ynni; annog a hyrwyddo polisïau sy'n mynd i'r afael ag anghenion ynni defnyddwyr ar gyflogau isel; nodi arferion da o ran effeithlonrwydd ynni; cynhyrchu adnoddau dysgu a datblygu maes llafur effeithlonrwydd ynni; gwella safonau ac annog pobl i feistroli sgiliau effeithlonrwydd ynni.

50. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn trafod â'r NEA rôl bosibl wrth godi proffil tlodi tanwydd ymhlith awdurdodau lleol ar y cyd â'r swydd CLlLC/EST y cyfeiriwyd ati uchod sy'n debygol o canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau Gwres Fforddiadwy ynghyd â hyfforddiant/addysg i ategu strategaeth Deddf Cartrefi Cynnes y Cynulliad.

51. Ar y cyd â'r Gyfarwyddiaeth, mae'r NEA yn cynnal Fforymau Tlodi Tanwydd chwarterol yng Nghymru sy'n rhoi cyfle i drafod, lledaenu gwybodaeth ac arferion gorau i amrywiaeth o gynrychiolwyr sydd â diddordeb o'r sectorau tai, gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, ynni a gwirfoddol.

## Energywatch

52. Energywatch yw'r eiriolwr defnyddwyr annibynnol ar gyfer defnyddwyr nwy a thrydan. Fe'i sefydlwyd gan y Llywodraeth i archwilio a datrys cwynion yn erbyn cwmnïau nwy a thrydan. Mae'n cynnig gwasanaeth un-stop i helpu defnyddwyr i gysylltu naill ail drwy ffôn, llythyr, yn

bersonol, drwy e-bost neu ar y we.

53. Ei nod yw meithrin defnyddwyr hyderus a disyflyd sy'n ymwybodol o'u hawliau, a'u helpu i roi pwysau ar gwmnïau i gael gwell bargeinion a gwella gwasanaethau. Mae'n ceisio gweithio gyda chwmnïau i wella perfformiad y diwydiant ar gyfer y cwsmer; ymgyrchu ar faterion diogelwch a ffyrdd diogel o gyflenwi a defnyddio nwy a thrydan ac ymgyrchu i gael gwared ar dlodi tanwydd a sicrhau manteision gwirioneddol i gwsmeriaid ar incwm isel.

54. Y llynedd, bu Energywatch Cymru yn ymweld â phob un o ardaloedd y cynghorau unedol i godi ymwybyddiaeth o'r Gofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth a ddelir gan gyflenwyr nwy a thrydan, sy'n rhoi gwasanaethau ychwanegol yn rhad ac am ddim i gwsmeriaid o oedran pensiwn, pob anabl, cleifion cronig, pobl ddall neu rai sydd â nam ar eu golwg, pobl fyddar neu rai sydd â nam ar eu clyw. Defnyddiwyd y cyfle hefyd i roi cyngor a gwybodaeth diduedd ar bob mater sy'n ymwneud â nwy a thrydan ac maent wedi ymuno â Gofal yr Henoed, Gofal a Thrwsio, RNID, RNIB, EAGA, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Canolfannau Cynghori Ynni er mwyn trefnu cyfarfodydd cynghori ym mhob un o'r 22 awdurdod.

**Goblygiadau Ariannol**

55. Dim. Datganiad o bolisïau a rhaglenni cyfredol yw'r papur hwn ac mae goblygiadau ariannol y rheini eisoes wedi'u nodi a'u cymeradwyo.

**Cydymffurfio**

56. Nid oes unrhyw faterion cydymffurfio. Datganiad o bolisïau a rhaglenni cyfredol yw'r papur hwn ac mae unrhyw faterion cydymffurfio sy'n berthnasol iddynt eisoes wedi'u nodi a'u cymeradwyo.

**Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu cymryd**

57. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi polisïau a rhaglenni effeithlonrwydd ynni domestig cyfredol Llywodraeth y Cynulliad a rhai'r Llywodraeth sy'n effeithio ar Gymru.

**Y Gangen Adeiladwaith ac Ynni Domestig – Y Gyfarwyddiaeth Dai**